**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Hydref 2011

Annwyl gyfaill,

Mae'r ddeiseb a ganlyn wedi dod i law Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

> *'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad annibynnol i orfodi safonau lles anifeiliaid yn y diwydiant ffermio cŵn bach yn ne-orllewin Cymru.*
>
> *Ceir yr ymyrraeth a'r ymchwiliad annibynnol hyn o ganlyniad i'r atgasedd eang sy'n bodoli oherwydd ei bod mor rhwydd cael trwydded i ffermio cŵn bach ac yn sgil diffyg gorfodi safonau lles. Mae'r atgasedd hwn yn creu delwedd negyddol iawn o Gymru ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.Yn ein barn ni, sefydlu ymchwiliad annibynnol yw'r unig ffordd ymlaen, a bydd hyn yn gam bach tuag at adfer enw da Cymru ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.Gobeithiwn y bydd yr ymchwiliad hefyd yn cwtogi ar weithgareddau ffiaidd y ffermydd cŵn bach didrwydded.'*

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed sylwadau unigolion, grwpiau a sefydliadau am y ddeiseb hon. Bydd y Pwyllgor Deisebau yn defnyddio'r sylwadau hyn wrth iddo ystyried y ddeiseb.

**Efallai y byddwch am ystyried y cwestiynau a ganlyn wrth ymateb:**

1. A ydych yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru (neu gorff arall) ymchwilio i orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid yn y diwydiant bridio cŵn yn ne-orllein Cymru?
2. A ydych yn teimlo bod trwyddedau yn cael eu rhoi yn rhy hawdd? A oes angen tynhau'r gofynion sydd angen eu bodloni cyn rhoi trwydded?
3. Beth yw'r rhwystrau i orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid yn effeithiol yn y diwydiant bridio cŵn?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost / Email:petition@wales.gov.uk

4. A ydych yn teimlo y dylai gosod microsglodyn o dan groen cŵn fod yn orfodol cyn eu gwerthu?
5. Pa mor fawr o broblem yw bridio cŵn heb drwydded yng Nghymru?

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddwn yn ddiolchgar i'w dderbyn erbyn 6 Rhagfyr 2011. Rwyf wedi atodi canllawiau ar gyflwyno tystiolaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r cais hwn â phartïon eraill sydd â diddordeb neu eich aelod sefydliadau, os yw hynny'n berthnasol.

Yn gywir,



**Abigail Phillips**
**Clerc y Pwyllgor Deisebau**

**Cyngor ynghylch cyflwyno tystiolaeth**

- Gall y Pwyllgor alw ar y rhai sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ategu'r dystiolaeth honno drwy gyflwyno tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor. Nodwch yn eich ymateb a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar.
- Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Caiff tystiolaeth ysgrifenedig ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, ac mae'n bosibl y caiff darnau ohoni eu cynnwys wedyn yn yr adroddiad.
- Ni fydd y Cynulliad yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol. Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.